

# SESIWN 1: ANGEN AC EISIAU

Oedran: 8–11 oed Amser: 1 awr

<b>Amlinelliad</b> Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bychain i flaenoriaethu eitemau yn ôl yr hyn sydd eu 'hangen' arnyn nhw a'r hyn maen nhw ei 'eisiau'. Yn y cyd-destun hwn, bydd y dysgwyr yn dechrau defnyddio iaith lafar i fynegi eu barn mewn ffordd strwythuredig i berswadio eraill.	
<b>Amcanion dysgu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Strwythuro dadl sy'n ceisio perswadio drwy ddefnyddio cyfres o bwyntiau rhesymegol, gan ddechrau a gorffen â'r dadleuon cryfaf.</li><li>• Cysylltu eu dadl â chynulleidfa darged.</li><li>• Gwahaniaethu rhwng angen ac eisiau.</li></ul>	<b>Canlyniadau dysgu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd y dysgwyr yn gwahaniaethu rhwng pethau sydd eu hangen arnynt a phethau maent eu heisiau, ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu trefn.</li><li>• Bydd y dysgwyr yn ceisio perswadio eraill i gytuno â'u barn ynghylch eu blaenoriaethau.</li><li>• Bydd y dysgwyr yn gwrando'n ofalus ar farn eraill.</li><li>• Bydd y dysgwyr yn casglu ymadroddion sy'n perswadio i'w roi mewn 'banc geiriau' ar gyfer y dosbarth.</li></ul>
<b>Cwestiynau allweddol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhywbeth rydych chi ei 'angen' a rhywbeth rydych chi ei 'eisiau'?</li><li>• Beth sydd wir ei angen arnoch i fyw?</li><li>• Beth sy'n bwysig iawn i chi, er y gallech oroesi hebdo?</li><li>• Beth rydych chi'n meddwl y mae gan bawb hawl iddo?</li><li>• A ddylai'r hawliau hyn fod ar gyfer pob plentyn neu ar gyfer y plant yn y dosbarth yn unig?</li></ul>	<b>Adnoddau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <i>Sleidiau Hawliau Plant: sleid 3</i></li><li>• <i>Trefnu'r diemwnt</i></li><li>• <i>Cardiau lluniau angen ac eisiau</i></li><li>• <i>Dadlau i berswadio</i></li></ul>
<b>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</b>	
<b>Cymru</b> <b>Cymraeg: Llafaredd</b> <b>Sgiliau:</b> Cyfathrebu yn glir ac yn hyderus, mynegi barn, addasu yn ôl y gynulleidfa a'r pwrpas, gan ddefnyddio ystumiau, tôn a chywair addas er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawr. <b>Ystod:</b> Siarad a gwrando'n unigol, mewn parau, mewn grwpiau ac fel aelodau o ddsbarth. <b>Fframwaith Llythrennedd: Cydweithio a Thrafod</b> Cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau.	

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

### Cyflwyniad (5 mun)

*Cyflwyno'r syniad o berswadio eraill*

- Gofynnwch i'r dysgwyr, sy'n gweithio fesul pâr, gymryd eu tro i dreulio munud yn perswadio'u partner i wneud y canlynol gyda nhw:
  - mynd am wyliau i'r lleud.
  - mynd i'w cartref i chwarae.
  - mynd ar daith i waelod y môr.
  - bwyta malwod wedi'u rhostio a lindys wedi'u piclo i de.

### Gweithgaredd 1.1 (15 mun)

*Blaenoriaethu anghenion*

- Rhewch set o'r cardiau lluniau (ar y daflen isod) i'r dysgwyr, sy'n gweithio mewn grwpiau o bedwar. Gofynnwch iddyn nhw drefnu'r lluniau ar ffurf diemwnt, gan ddangos yr eitem mae'r dysgwyr yn teimlo'u bod ei hangen fwyaf ar y top. Os bydd y dysgwyr yn anghytuno, dylent geisio perswadio'r lleill yn y grŵp drwy roi rhesymau dros eu dewis. Anogwch y dysgwyr i wrando ar ei gilydd yn ofalus cyn gwneud penderfyniad.
- Pan fydd y grŵp cyfan wedi cytuno, gofynnwch iddyn nhw ludio'r lluniau yn eu lle.
- Arweiniwch drafodaeth dosbarth ar y drefn y mae pob grŵp wedi cytuno ar gyfer y lluniau:
  - *Sut wnaethoch chi benderfynu pa lun i'w roi ar dop y diemwnt? Oedd pawb yn eich grŵp yn cytuno?*
  - *A oedd yn rhaid i rywun yn eich grŵp berswadio'r lleill i roi llun mewn man penodol?*
  - *Sut wnaethoch chi benderfynu pa lun i'w roi ar waelod eich diemwnt? Oedd pawb yn eich grŵp yn cytuno?*
  - *Oes yna fan yn eich diemwnt lle mae'r lluniau'n newid o bethau rydych eu 'hangen' i bethau rydych eu 'heisiau'? Ble mae hyn? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhywbeth rydych ei 'angen' a rhywbeth rydych ei 'eisiau'?*

### Gweithgaredd 1.2 (25 mun)

*Llunio dadl*

- Pan fyddwn am berswadio eraill ynghylch rhywbeth, eglurwch fod yn rhaid inni benderfynu i ddechrau pwy yw'r gynulleidfa darged. Eglurwch mai'r gynulleidfa darged ar gyfer y gweithgaredd nesaf fydd grŵp arall o bedwar dysgwr.

- Rhwch ychydig funudau o amser i'r dysgwyr, yn yr un grwpiau o bedwar o hyd, gwblhau'r daflen *Dadlau i berswadio*. Anogwch y dysgwyr i feddwl am eiriau defnyddiol y gallen nhw eu defnyddio i berswadio eraill. Am enghreifftiau, gweler sleid 3.
- Eglurwch y bydd yn rhaid iddyn nhw ystyried sut i strwythuro'u dadl:
  - Bydd angen iddyn nhw gyflwyno'u pwyntiau mewn trefn resymegol, gan ddechrau un ai ar dop neu ar waelod y diemwnt.
  - Bydd angen iddyn nhw ddechrau a gorffen gyda'u dadleuon cryfaf er mwyn perswadio'u cynulleidfa.
- Cyfunwch ddau grŵp o bedwar dysgwyr a gofyn iddyn nhw gymryd eu tro i berswadio'r grŵp arall mai eu trefn nhw o osod y lluniau sy'n gywir.
- Yn ystod eu trafodaethau grŵp, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu ar y taflenni *Dadlau i berswadio* unrhyw eiriau arbennig o gryf o berswâd maen nhw'n eu clywed.
- Casglwch y geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu defnyddio i berswadio at ei gilydd mewn 'banc geiriau', i'w defnyddio'n ddiweddarach.

### Gwahaniaethu

**Haws:** Nodwch y dylai'r dysgwyr ddechrau eu dadl drwy egluro pam mae 'angen' yr eitem ar dop eu diemwnt arnyn nhw. Gallen nhw ddefnyddio'r frawddeg ddechreuol: "Rydyn ni'n credu bod angen \_\_\_\_\_ arnon ni oherwydd ..."

**Anoddach:** Awgrymwch fod y dysgwyr yn defnyddio dulliau cryfach o berswadio i gryfhau eu dadl. Allen nhw ofyn cwestiwn rhethregol i'w cynulleidfa?: "Ydych chi wir yn meddwl bod angen \_\_\_\_\_ arnon ni?" Allen nhw bwysleisio pwynt drwy gysylltu tair eitem ynghyd? Er enghraifft, "Mae \_\_\_\_\_, \_\_\_\_\_ a \_\_\_\_\_ i gyd yn eitemau rydyn ni eu heisiau yn hytrach na'u hangen oherwydd ..."

### Sesiwn llawn (15 mun)

- Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrion ar y trafodaethau a gawson nhw drwy ystyried y pwyntiau hyn:
  - Beth sydd wir ei angen arnon ni i fyw?
  - Pa bethau sy'n bwysig iawn i ni er y byddem yn gallu goroesi hebbydd nhw?
  - Pa bethau rydyn ni'n credu bod gan bawb hawl iddyn nhw?
  - Ddylai'r hawliau hyn fod ar gyfer pob plentyn neu ar gyfer rhai plant yn unig?
  - Ydy pob plentyn yn gallu cael yr hawliau hyn? Strwythurwch y drafodaeth i egluro nad yw rhai plant yn cael yr hyn sydd eu hangen arnyn nhw oherwydd tlodi a phrinder adnoddau. *Noder y gallai fod angen i chi fod yn sensitif i anghenion y plant o fewn eich dosbarth.*


- Oes yna bethau eraill (sydd heb fod ar y cardiau) y dylai pob plentyn fod â hawl iddyn nhw?
- A yw hawliau plant yn helpu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu?
- Cyfrifoldeb pwy yw sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diwallu? (*Rhieni a gofalwyr, athrawon, gweithwyr meddygol proffesiynol, cynghorau lleol, llywodraethau ac yn y blaen*)

### Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych eto ar y categorïau uwchben pob cerdyn llun: cysgod, teulu, diogelwch, addysg, moddion, cyfeillgarwch, chwarae, bwyd, dŵr. Yna gofynnwch iddyn nhw feddwl am eitemau eraill ar gyfer pob categori. Er enghraifft, beth arall heblaw goleuadau traffig sy'n ein gwneud yn ddiogel? Eglurwch mai ffordd ddefnyddiol o strwythuro dadl yw cysylltu eitemau, tystiolaeth neu enghreifftiau sy'n perthyn i'r un categori ac felly'n cefnogi'r un prif syniad.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu testun byr yn perswadio eraill i gytuno â'r ffordd maen nhw wedi trefnu'r hyn maen nhw ei angen a'r hyn maen nhw ei eisiau. Gallai pob 'angen' neu 'eisiau' fod yn baragraff newydd.

## Trefnu'r diemwnt

- Chwyddwch ar bapur A3 i ddangos un bocs ar dop a gwaelod y diemwnt.



## Cardiau lluniau angen ac eisiau

- Rhowch set o'r lluniau hyn i bob grŵp

### Cysgod



[Josh Larios, Wikimedia Commons](#)

### Teulu



[Bill Branson, Wikimedia Commons](#)

### Diogelwch



[Wikimedia Commons](#)

### Addysg



[National Cancer Institute, Wikimedia Commons](#)

### Moddion



[Welcome Images, Wikimedia Commons](#)

### Cvfeillgarwch



[Lance Cpl. Matheus Hernandez, Wikimedia Commons](#)

**Cardiau lluniau angen ac eisiau****Chwarae**

[Pieter Bos, Wikimedia Commons](#)

**Bwyd**

[Warren Dew, Wikimedia Commons](#)

**Dŵr**

[Homerescue, Wikimedia Commons](#)

**Telerau defnyddio**

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.

**Dadlau i berswadio**

**Ein dadl gychwynnol** (gwnewch hon yn ddadl gref o blaid eich dewisiadau, er enghraifft, “Fe roddon ni XX at y top oherwydd ...” neu “Fe benderfynon ni fod yn rhaid i XX fod yn un o’r tri isaf oherwydd ...”)

**Rhesymau eraill dros ein barn y gallwn eu defnyddio i berswadio’r grŵp arall:**  
(Ychwanegwch restr o bwyntiau bwled.)

- 

**Ymadroddion y gallem eu defnyddio i berswadio’r grŵp arall** (Er enghraifft, “Mae’n amlwg fod ...”)

**Iaith perswadio glywson ni wrth drafod â’r grŵp arall**

**Ein dadl i gloi** (gwnewch hon yn ddadl gref arall o blaid eich dewisiadau, er enghraifft, “Fe roddon ni XX ar y gwaelod oherwydd ...”)